




DARLLENWCH
Numeri 21: 4-9

Mae'r stori hon yn
sôn am:
**Ffordd Duw o
achub pobl rhag
marwolaeth**



Stori 4 Duw'n rhoi iachawdwriaeth

Un diwrnod, dechreuodd yr Israeliaid gwyno. “Pam ddaethoch chi â ni allan o'r Aifft i farw yn yr anialwch?” Does yma ddim bwyd go iawn na dŵr ac mae'n gas gyda ni'r manna yma,“ ebe nhw wrth Moses.

Trefnodd Duw fod seirff (nadoedd) gwenwynig yn ymosod arnyn nhw! Cyn pen dim, cafodd llawer o'r Israeliaid eu brathu, ac roedden nhw'n marw. Dyna beth drwg yw cwyno a grwgnach am roddion Duw!

Ticiwch (✓) y brawddegau 'cywir' a rhowch groes (X) ar ôl y rhai 'anghywir'.

Roedd yr Israeliaid yn ddiolchgar i Dduw am Ei holl roddion

Ni wnaeth y seirff niwed i neb.


Bu farw llawer o'r Israeliaid oherwydd y gwenwyn.

Cyn hir, daeth y bobl yn ôl at Moses a dweud wrtho ei bod hi'n flin ganddyn nhw am gwyno. Gofynnnon nhw iddo weddio ar Dduw i gael gwared â'r nadoedd.

Dywedodd Duw wrth Moses am wneud sarff o fetel. Yna cododd Moses y sarff ar bolyn uchel. Dywedodd wrth bawb oedd wedi'i gnoi, ac yn marw, am edrych ar y sarff, oherwydd roedd Duw wedi addo eu gwella, dim ond iddyn nhw edrych!

Iachawyd pawb a wnaeth yn union fel y dywedodd Duw!

Gallwn ninnau gael ein hachub o'n pechodau pan fyddwn yn ymddiried yn yr Arglwydd Iesu gafodd ei ddyrchafu ar y groes.



Lliwiwch y lluniau a'r geiriau.

“Edrychwch a
Byddwch Fyw.”

10

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygydd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawm o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o www.amserbeibl.org

Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120